# PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 14 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hunt, Murphy, Sanders, Huw Thomas a/ac Walker |

## 61 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Goddard.

## 62 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 63 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 64 : RHEOLI PERTHYNAS CWSMERIAID A SYSTEMAU SAP: DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Croesawyd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, Paul Orders, y Prif Weithredwr; Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau; a Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad a ddilynwyd gan gyflwyniad lle rhoddodd Sarah McGill ddiweddariad i Aelodau ar gynnydd Cam 1 system Reoli Perthynas Cwsmeriaid y Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod adolygiad llawn o gydymffurfiaeth Cam 1 ar y gweill a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Ebrill.

- Er bod sawl rheswm dros fod yn hyderus, bydd canlyniadau'r arolwg yn rhoi darlun mwy clir.

- Cododd yr Aelodau bryderon o ran sut y byddai'r bobl hynny sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio technoleg, neu'r bobl hynny sydd heb fynediad at dechnoleg, yn ymdopi ond dywedwyd wrthynt y byddai cyngor ar gael ar y ffôn a hefyd wyneb yn wyneb mewn Hybiau amrywiol.

- Cododd yr Aelodau bryderon am y ffaith bod Cynghorau amrywiol yn defnyddio gwahanol systemau ar gyfer yr un peth ac ymholon nhw a oedd cydweithredu technolegol yn bosibl.

- Bu gan y Prif Weithredwr farn tebyg ond cydnabu fod galluoedd technegol yn amrywio ym mhob un o'r Cynghorau amrywiol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd symud i system unigol yn ddewis a dywedodd Swyddogion eu bod yn hyderus bod yr ateb yn y haen integreiddio, ond bod angen iddo fod yn gadarn ac yn ddibynadwy.

- Nododd yr Aelodau bod adroddiadau perfformiad Chwarter 3 gweithredu camau 2/3 yn goch/oren ac ymholon nhw a ellir gweithredu'r camau erbyn Mawrth 2018 fel y disgrifiwyd.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr hyn sydd wedi'i ddysgu o'r anawsterau wedi'u hwynebu wrth weithredu cam 1, sydd dal heb ei gyflawni, wedi bod yn werthfawr, ond bod y statws bellach yn goch.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

65 : STRATEGAETH GAFFAEL 2017-2020

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad; Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau; a Steve Robinson, Rheolwr Gweithredol Comisiynu a Chaffael i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Steve Robinson adroddiad i'r Aelodau ac ar ei ôl gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau:

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai bwriad y strategaeth newydd yw cyflawni pedwar nod sefydliadol eang, ond roedd pryderon y dylai'r Cynllun Cyflawni edrych yn ôl hefyd.

- Dywedodd swyddogion, er mwyn gwella, ei bod yn bwysig bod cydweithredu rhwng gwasanaethau a'u bod yn cael eu hannog i gymryd perchenogaeth.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn bwysig bod y strategaeth a'r timau'n gweithio i gefnogi gwaith i wella gwasanaeth trwy'r broses gyllideb a sicrhau bod trefniadau'n addas i'r diben mewn Cyfarwyddiaethau.

- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Bwrdd Buddion Cymunedol wedi'i sefydlu a bod y cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal i ddatblygu Polisi a Siartr Cyfrifoldeb Cymdeithasol.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

66 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR AR GYFER 2016/17

Derbyniodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol yn 2016/17 cyn i'r Cyngor Llawn ei ystyried.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2016-17 Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

67 : PERFFORMIAD CHWARTER 3 2016-17

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad; Christine Salter, y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Adnoddau; Leon Goddard, Rheolwr Gweithredol Perfformiad a Gwella; Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oed; a Jackie Turner, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, yna cafodd Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 ei gyflwyno gan Leol Goddard.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ymholodd yr Aelodau am gysondeb adrodd perfformiad a dywedwyd wrthynt y bydd proses adrodd deuol; adrodd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a sut mae Cyfarwyddiaethau yn cyflawni pethau bob dydd a phob wythnos.

- Caiff gwybodaeth am berfformiad ei chyhoeddi mewn adroddiad ar y rhyngrwyd a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

- Nododd yr Aelodau nad yw gwasanaeth wedi arbed yr holl arian a ddisgwyliwyd. Dywedodd yr Aelodau fod mecanweithiau ar waith i herio uwch reolwyr. £4m yw'r gyllideb tu cefn ar hyn o bryd. Mae swyddogion yn hyderus y bydd gwelliannau Statws Cynllunio yn rhoi sefyllfa well i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf.

- Sylwodd yr Aelodau nad oes mandad i orwario ar gyllidebau wedi'i bennu gan y Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i wneud datganiad a dywedodd fod patrwm absenoldeb salwch yn y Gyfarwyddiaeth wedi'i adolygu dros gyfnod o 3 blynedd. Roedd y cyfrifiad ar gyfer ysgolion wedi aros yn weddol sefydlog ond ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn ysgolion roedd y cyfrifiad wedi lleihau. Teimlwyd bod hyn yn ffactor o ran diwrnodau wedi'u colli. Hefyd, gyda llai o staff mae cynnydd wedi bod yn nigwyddiadau straen yn ymwneud â'r gwaith. Rhoddodd Jackie Turner, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, gyflwyniad i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau a chaiff yr holl absenoldebau salwch eu hystyried a'u cynnwys yn y ffigurau a chyfeirion nhw'n benodol at ddigwyddiadau lle mae'n rhaid i staff aros yn eu cartref am 48 awr.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Canllawiau ar Iechyd y Cyhoedd wedi'u ceisio a chadarnhaon nhw fod yn rhaid cofnodi absenoldebau o'r fath fel absenoldeb salwch.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ran diffiniadau absenoldeb salwch; dywedodd swyddogion bod mewn rhyw ffordd gall yr holl absenoldebau salwch sy'n ymwneud â straen fod yn ymwneud â'r gwaith – ai'r gwaith neu ddod i'r gwaith? Mae diffiniadau bob amser yn agored i'w dehongli.

- Ymholodd yr Aelodau am y camau sy'n cael eu cymryd i gynorthwyo staff wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr fod camau'n cael eu cymryd i godi proffil salwch yn ymwneud â straen gydag athrawon a llywodraethwyr. Mae gweithwyr achos AD yn anfon briffiau'n rheolaidd ac yn eu dilyn nhw i fyny'n rhagweithiol. Mae patrwm o ran rhan rhai absenoldebau salwch ac mae'r lefel yn uchel ymhlith staff rhan amser – mae twf wedi bod yn absenoldeb byrdymor. Mae angen bod mwy o atebolrwydd syth.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.